| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 7 Gorffennaf 2022 |
| **TEITL** | Craffu Trefniadau Gofal Iechyd Canolbarth Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu tri aelod i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Yn 2015, sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth mewn ymateb i Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yng Nghanolbarth Cymru yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth. Yn dilyn cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru bod Canolbarth Cymru yn ardal gynllunio ddynodedig, cafodd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth ei drawsnewid i ffurfio Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal ym mis Mawrth 2018.

2. Mae Bwriad Strategol Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cyd-fynd â cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Nodir yr hyn a wneir er mwyn sicrhau bod yna ddull cydlynol o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal ledled Canolbarth Cymru. Gweledigaeth y Cyd-Bwyllgor yw:

   "Bod mynediad teg yn cael ei ddarparu ar gyfer poblogaeth Canolbarth Cymru i wasanaethau iechyd a gofal integredig, diogel, cynaliadwy, o ansawdd uchel."

3. Mae ardal gorchwyl y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys Powys, Ceredigion a Meirionnydd.

4. Mae aelodaeth Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cynnwys Prif Weithredwyr sefydliadau gofal iechyd partner, sef:

   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
   - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
   - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

   Ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol a Chynghorau Iechyd Cymuned sydd yn gwasanaethu ardal Canolbarth Cymru.

5. Cynrychiolwyr Gwynedd ar y Cyd-Bwyllgor yw'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

<u>Grŵp Craffu</u>

6. Rôl y Gweithgor yw edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghanolbarth Cymru a materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn ardaloedd perthnasol siroedd Ceredigion, Gwynedd a Phowys.

7. Mae'n gyfle i Gynghorwyr y tair Sir graffu darpariaeth y gwasanaeth iechyd a gofal, gofyn cwestiynau ynghylch sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, ystyried a ellir cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r perwyl hwn.

8. Mae craffu yn chwarae rôl hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau.

9. Cynrychiolwyr craffu Gwynedd cyn yr etholiad, oedd y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Beth Lawton a Dewi Roberts.

**10. Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal enwebu tri Aelod ar gyfer y Gweithgor.**